Dŵr Cymru
Welsh Water

# Canllawiau ar Ddatblygiadau Arfaethedig ar gyfer Penodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs)

dwrcymru.com

# Tabl Cynnwys

Contents


Canllawiau ar Ddatblygiadau Arfaethedig ar gyfer Penodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs) .3

Ein Gwasanaeth Datblygiadau Arfaethedig ........................................................................3
Rheoli Dŵr Wyneb ar Safle'r Datblygiad.............................................................................3
Modelu Hydrolig ar y Rhwydwaith/Astudiaethau Hyfywedd GTDG ...............................................4
Asedau ar Safle'r Datblygiad.............................................................................................4
Dod o hyd i Ased .............................................................................................................4
Diogelu Asedau ...............................................................................................................5
Dargyfeirio Prif Bibell Ddŵr neu Garthffos Gyhoeddus.......................................................5


# Rheoli Fersiynau

| Rhif y Fersiwn | Dyddiad Cyhoeddi | Addasiadau i'r cyhoeddiad blaenorol |
|---|---|---|
| V3.0. | 15 Mawrth 2021 | Newidiadau cyffredinol i'r testun i wneud y ddogfen yn gliriach. |
| V4.0 | 18 Chwefror 2022 | Ychwanegu brawddeg isod |
| V5.0 | 13 Mawrth 2024 | Diweddaru linc i wefan |

# Canllawiau ar Ddatblygiadau Arfaethedig ar gyfer Penodiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs)

Mae gan Ddŵr Cymru Welsh Water (DCWW) rôl allweddol i'w chwarae yn y broses cynllunio gwlad a thref am fod y gwasanaethau y mae'n eu darparu yn flaenllaw o ran iechyd y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd.

Mae ein rhan ni yn y broses gynllunio'n caniatáu i ni sicrhau y gallwn wasanaethu datblygiad newydd yn briodol o safbwynt trin dŵr glân a charthffosiaeth, ond mae'n ein taclu ni hefyd â'r rheolaeth i'm galluogi ni i liniaru unrhyw effaith negyddol bosibl y mae'r datblygiad newydd yn debygol o'i chael ar berfformiad ein seilwaith, y gwasanaeth a ddarparwn ar gyfer cwsmeriaid, a'r amgylchedd ehangach. Yn allweddol, mae'r broses gynllunio'n caniatáu i ni glustnodi ymhle y bwriedir cyflawni datblygiadau newydd a thwf fel y gallwn dargedu buddsoddiad yn ein seilwaith cyfredol o fewn yr ardaloedd hyn.

Gall y Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu gynnig cyngor ac arweiniad cyn gwneud cais, adeg y cais cynllunio ac adeg cyflawni amodau'r broses gynllunio. Byddwn ni'n delio hefyd â cheisiadau i gysylltu â'r rhwydwaith carthffosiaeth.

## Ein Gwasanaeth Datblygiadau Arfaethedig

Rydyn ni'n annog pob parti i gysylltu â ni cyn gynted â phosibl i drafod unrhyw faterion a allai godi yn ystod y broses cynllunio/adeiladu. I gynorthwyo yn hyn o beth, mae DCWW yn gweithredu gwasanaeth datblygiadau arfaethedig i asesu effaith y datblygiad; gan gynghori ar a all y rhwydwaith lleol ddarparu ar gyfer y cynnig; a fydd angen darparu prif bibellau dŵr a/neu garthffosiaeth oddi ar y safle; ac a oes yna unrhyw gyfarpar o fewn y tir yr hoffai'r Cwsmer ei ddatblygu a'r gofynion ar gyfer y cyfarpar yma.

Er mwyn sicrhau y gall ein Canolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu ddarparu cyngor cynhwysfawr ynghylch y datblygiad ar eich cyfer, sicrhewch fod y wybodaeth ganlynol yn cael ei chyflwyno gyda'ch ymholiad:

- Plan o Leoliad y Safle;
- Manylion y datblygiad arfaethedig (os yw'n ddatblygiad preswyl, nodwch nifer yr aneddiadau a fwriedir, ac os yw'n ddiwydiannol, natur ei ddefnydd a'r nifer o staff a ddisgwylir);
- Pwyntiau cyswllt arfaethedig â'n rhwydwaith o garthffosydd a/neu brif bibellau dŵr lleol (os yw'n hysbys)

Mae ein gwasanaeth Arweiniad ar Ddatblygiadau Arfaethedig ar gael fel gwasanaeth ar wahân neu yn rhan o'r Cynnig Swmpwasanaethau. Gellir cyflwyno cais trwy'r post neu trwy lenwi'r ffurflen gais ar lein sydd ar gael yma . Pan ddaw eich cais i law, anfonir anfoneb atoch i'w thalu ar unwaith. Darperir ymateb ysgrifenedig ar eich cyfer cyn pen 21 diwrnod ar ôl i'ch cais cyflawn ddod i law fel gwasanaeth ar ei ben ei hun, neu cyn pen 28 diwrnod os caiff ei ddarparu yn rhan o Gynnig Swmpwasanaeth. Bydd y cyngor a ddarperir yn ddilys am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad cyhoeddi.

## Rheoli Dŵr Wyneb ar Safle'r Datblygiad

Newidiodd cyflwyniad Adran 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 sut mae dŵr wyneb yn cael ei reoli ar ddatblygiadau newydd yng Nghymru. Erbyn hyn mae ar bob datblygiad newydd â mwy nag un adeilad neu lle mae'r ardal adeiladu'n cwmpasu 100m$^2$ o dir neu ragor, angen caniatâd y Corff Cymeradwyo SuDS (SAB) ar gyfer unrhyw nodweddion SuDS newydd. Felly cyn cyflwyno ymholiad

am ddatblygiad arfaethedig i ni, argymhellir yn gryf eich bod chi'n siarad â'r SAB i ganfod ai cysylltiad dŵr wyneb â'r garthffos gyhoeddus yw'r ffordd fwyaf priodol o fynd ati.

Hefyd, ac yn gyson ag Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a 'Safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy' Llywodraeth Cymru, gofynnir i chi archwilio a disbyddu'r holl opsiynau draenio dŵr wyneb yn llwyr yn unol â'r hierarchaeth sy'n datgan taw dim ond pan fetho popeth arall y caiff dŵr wyneb ei ryddhau i garthffos gyfun. Dylid ei waredu trwy'r dull hierarchaidd, gan flaenoriaethu ymdreiddiad, a lle nad yw ymdreiddiad yn bosibl, draenio i gyrsiau dŵr yn dilyn trafodaeth â'r Awdurdod Draenio Tir a/neu Gyfoeth Naturiol Cymru. Yn ogystal ag i ble mae'r dŵr ffo yn mynd (S1), bydd angen i nodweddion SuDS roi ystyriaeth i reolaeth hydrolig, ansawdd dŵr, amwynder, bioamrywiaeth a dyluniad (S2 - 26)

Serch yr uchod, o ran y ddeddfwriaeth ategol, gan gynnwys Rhan H o'r cyhoeddiad 'Rheoliadau Adeiladu 2000', byddem yn cynghori bod disgwyl i bob datblygiad newydd yn Lloegr ystyried technegau rheoli dŵr wyneb hefyd, a dangos bod yr holl opsiynau technegol wedi cael eu harchwilio a'u disbyddu, a hynny ar y cyd â'r Awdurdod Draenio Tir a/neu Asiantaeth yr Amgylchedd.

Bydd angen ystyried rheoli dŵr ffo oddi ar briffyrdd neu dir hefyd am na chaniateir rhyddhau'r llifoedd yma'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r system garthffosiaeth gyhoeddus.

## Modelu Hydrolig ar y Rhwydwaith/Astudiaethau Hyfywedd GTDG

Bydd ein cyngor ar y datblygiad arfaethedig yn rhoi syniad o ran a all y rhwydweithiau cyfredol ddarparu ar gyfer y datblygiad newydd ai peidio. Fodd bynnag, gallai fod yna achosion lle nad yw ein hasedau'n gallu gwasanaethu'r safle ar y pryd.

Ein nod yw cynorthwyo datblygiad economaidd a thwf o fewn ein hardal weithredu. Fodd bynnag, rhaid i ni fod yn ystyriol o'n hasedau, ein cwsmeriaid cyfredol a'r amgylchedd. Mewn ardaloedd lle mae yna broblemau naill ai ar ein rhwydwaith neu yn y Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff (GTDG), mae'n bosibl y bydd gennym gynlluniau eisoes i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a chreu capasiti ar gyfer datblygiadau newydd o fewn y rhwydwaith.

Fodd bynnag, gallai fod yna achosion lle caiff y safle ei ddatblygu cyn i DCWW gyflawni gwelliannau. Os felly, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar ein cwsmeriaid cyfredol, gellir gofyn i chi roi'r atebion a glustnodwyd gan asesiad, naill ai o'r rhwydwaith neu'r Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff, ar waith. Dylid nodi na fydd disgwyl i chi ddatrys unrhyw broblemau gweithredol sy'n bodoli.

Lle argymhellir asesiadau pellach, dylid nodi y bydd angen i chi ganiatáu digon o amser yn y rhaglen datblygu i'r astudiaethau hyn gael eu cyflawni ac i unrhyw welliannau gael eu gwneud, oherwydd, o dan rai amgylchiadau, ni fyddwn ni'n caniatáu cysylltiad â'n rhwydweithiau nes bod y gwaith yma wedi ei gwblhau.

## Asedau ar Safle'r Datblygiad

Gallai ein cyngor ar ddatblygiad arfaethedig dynnu eich sylw at asedau a/neu gyfarpar sydd wedi ei leoli o fewn safle'r datblygiad. Mae hi'n bwysig nodi, o dan adran 159 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, fod gan DCWW hawliau mynediad i archwilio, cynnal, addasu, trwsio neu ddiwygio unrhyw asedau neu gyfarpar unrhyw bryd.

## Dod o hyd i Ased

Caiff ein cyngor ar y datblygiad arfaethedig ei ategu gan blaniau o'r prif bibellau a'r carthffosydd, gan roi syniad i chi am leoliad yr ased o fewn y safle. Fodd bynnag, rydyn ni'n darparu'r wybodaeth yma

fel canllaw cyffredinol yn unig, ac ar sail y ddealltwriaeth bendant ei bod yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael i ni (gweler y nodiadau yn ein cynlluniau am fanylion pellach). Ni fyddwn ni'n derbyn atebolrwydd am wybodaeth sy'n anghywir. Chi a neb arall sy'n gyfrifol am ddod o hyd i'r cyfarpar cyn cyflawni unrhyw waith cloddio. Er mwyn dod o hyd i union leoliad unrhyw asedau, cysylltwch â'n Canolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu am arweiniad pellach.

## Diogelu Asedau

Bydd presenoldeb ased o fewn safle'r datblygiad yn effeithio ar osodiad a threfn gyffredinol safle datblygiad newydd. Bydd ein cyngor ar ddatblygiad arfaethedig yn darparu manylion er mwyn amddiffyn yr ased(au), a bydd angen i'r datblygwyr sicrhau bod y gosodiad yn ymgorffori'r gofynion hynny. Ein hargymhelliad ni yw bod ein hasedau yn cael eu hymgorffori i unrhyw blan o osodiad y safle a gyflwynir yn rhan o unrhyw gais cynllunio, fel y gallwn fod yn fodlon bod datblygwyr wedi cydnabod presenoldeb asedau o'r fath, a'u bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i'w hamddiffyn ar y safle.

## Dargyfeirio Prif Bibell Ddŵr neu Garthffos Gyhoeddus

Os ydych chi wedi dod i'r casgliad na ellir ymgorffori'r ased i leoliad o fewn y safle o fewn gosodiad y datblygiad newydd, neu y gallai'r Cynnig effeithio ar ein hawliau mynediad, gallwch ofyn am ddiwygio neu dynnu'r cyfarpar yna, gan gynnwys eu dargyfeirio er mwyn darparu ar gyfer gwelliannau arfaethedig i'r tir (e.e. datblygiad neu newid defnydd). Rhoddir yr hawl yma o dan Adran 185 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Gellir cael rhagor o fanylion am ddargyfeirio asedau trwy gysylltu â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu a fydd yn cydgysylltu â'n Peirianwyr ar eich rhan.